## Saffari Bywyd Gwyllt Rhiw

Mae Mynydd Rhiw yn codi'n serth o'r traeth ym Mhorth Neigwl i gopa'r mynydd tua 300 metr uwchben lefel y môr. Mae'n cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd: o ddyfroedd bas a thraethau tywodlyd yr arfordir, drwy goetir ynn a chyll a phorfeydd defaid i'r rhostir cyfoethog ar ran uchaf y mynydd.

Mae gan y mynydd hanes diwylliannol amrywiol a chyfoethog, gyda thystiolaeth fod pobl yn byw yma yn y cyfnod Neolithig sy'n cynnwys olion ffatrïoedd bwyeill cerrig a chromlechi. Mae olion claddu a meini hirion o'r oes efydd i'w gweld hefyd. Mae dwy fryngaer o'r Oes Haearn yma ac mae cytiau crwn o'r cyfnod Rhufeinig a'r Oesoedd Tywyll yn frith drwy'r ardal.

Mae rhan helaeth o dir Mynydd Rhiw dan ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n ceisio ei reoli yn effeithiol drwy gynnal a chyfoethogi'r cynefinoedd. Maent yn ceisio creu rhostir mwy amrywiol ar y llethrau uchaf drwy leihau'r gorchudd o eithin, torri stribedi i annog grug ifanc i dyfu a chyflwyno gwartheg i bori'r safle.

Mae coed llydanddail wedi cael eu plannu ar safle hen blanhigfa goed fasnachol uwchlaw Ffynnon Saint sy'n cysylltu rhannau isaf y mynydd i'r rhostir. Mae'r cynefinoedd cyfoethog yma'n galluogi'r bywyd gwyllt symud heb rwystr ar hyd ochr y mynydd.

## Rhiw Wildlife Safari


Mynydd Rhiw rises steeply from the shores of Porth Neigwl to its heathery mountaintop some 300 metres above sea-level. An impressive variety of habitats lie nearby: from the shallow seas and sandy shores of the bay, through ash and hazel woodlands, sheep-grazed pastures and into the vibrant heathland of the hilltop.

This hillside is layered with a rich mix of cultural history, with evidence of habitation dating back to the Neolithic period, including stone axe factories and chambered tombs. There are standing stones representative of the Bronze Age, two Iron Age hillforts and many roundhut settlement sites from Roman and Dark Age times that pepper the area.

At present, much of this site is under the care of the National Trust, with a key focus on creating a more diverse heathland by reducing European Gorse cover, cutting strips to encourage younger stands of heather to grow and introducing grazing with cattle. A large swathe of broadleaf trees have been planted on the site of an old spruce plantation above Ffynnon Saint, which are now developing into a diverse forest linking the lower areas of the mountain to the upland heathland habitats to restore connectivity of habitats across the hillside.

live

EU Funds: Ireland Wales Programme 2014-2020
Tionól Réigiúnach an Deiscirt Southern Regional Assembly
Cláir Chistí Eorpacha Struchtúrtha agus Infheistíochta na hÉireann 2014–2020
Cómhaoinithe ag Rialtas na hÉireann agus ag an Aontas Eorpach
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust
UCC University College Cork, Ireland Coláiste na hOllscoile Corcaigh
Prifysgol Bangor University



ecoamgueddfa

# Saffari Bywyd Gwyllt Rhiw
# Rhiw Wildlife Safari

www.ecomuseumlive.eu
www.ecoamgueddfa.org

# Y 5 Mawr!

## Ehedydd

Mae cân unigryw yr ehedydd yn nodweddiadol o ucheldir a chaeau glaswelltog Cymru, gyda'r adar gwrywaidd yn trydar rhaeadr o nodau yn uchel uwchben eu tiriogaeth, a hwythau'n aml i'w gweld fel smotyn bach ymysg y cymylau oddi uchod. Gyda'u plu llwydfelyn, nid y rhain yw'r adar hawsaf i'w gweld yng nghanol y glaswelltir sy'n gynefin iddynt, ac mae'r cywion hyd yn oed yn datblygu cap o blu main ar eu pennau sy'n debyg i goesynnau gwellt! Gwelwyd gostyngiad o dros 60% yn y rhywogaeth ar draws Prydain ers y 1980au, ond mae ardaloedd fel glaswelltir garw Mynydd Rhiw yn dal i gynnal poblogaethau pwysig o'r aderyn carismatig hwn.

## Cnocell werdd

Galwad uchel fel sŵn chwerthin yn aml yw'r arwydd cyntaf sy'n bradychu presenoldeb y gnocell lliwgar hon. Gyda chefn melynwyrdd llachar, cap coch llachar a llygaid gwynion, mae'n aderyn trawiadol a welir mewn coed ynn a glaswelltir agored ar ochr Mynydd Rhiw. Yn wahanol i fathau eraill o gnocell y coed, mae'r rhywogaeth hon yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser ar y ddaear, yn defnyddio eu tafod hir, gludiog i chwilio am ei hoff ysglyfaeth: morgrug! Mae twmpathau morgrug melyn yr ardal yn berffaith, ac mae'r coetiroedd aeddfed hefo digon o dyllau yn y coed i fagu eu cywion croch.

## Madfall cyffredin

Gyda chymysgedd o rostir, llethrau heulog, waliau cerrig sych a gorchudd trwchus o rug, mae gan Mynydd Rhiw'r cyfuniad perffaith ar gyfer y rhywogaeth ymlusgol syfrdanol yma. Fe'i gwelir yn aml yn torheulo ar y llwybrau rhwng dechrau'r gwanwyn a'r hydref. Maent oddeutu 15cm o hyd gyda phatrwm brith a streipiog sy'n amrywio o frown a melyn i wyrdd, ac weithiau maent yn ddu hyd yn oed. Yn wahanol i lawer o ymlusgiaid eraill, mae madfallod yn deor eu hwyau y tu mewn i'w corff, gan roi genedigaeth i rai bychain yn hytrach na dodwy'r wyau.

## Tafod yr hydd

Mae gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o redyn yn gallu bod yn anodd, ond mae rhedyn tafod yr hydd yn sefyll allan am nad oes ganddo ddail canghennog; ond yn tyfu allan o'r ddaear yn un stribyn sy'n debyg iawn i dafod carw ('hydd' yw'r enw am garw coch gwryw). Mae ochr isaf y dail hyn yn aml wedi eu gorchuddio â rhesi cyfochrog o sborau tywyll, sy'n debyg i nadroedd cantroed bychain! Mae'n blanhigyn bytholwyrdd ac yn bresennol drwy gydol y flwyddyn, yn ffurfio clytiau trwchus ar lawr y goedwig a gall dyfu i daldra o dros 50cm ar brydiau.

## Gwas y neidr

Yn hedfan dros gorsydd, pyllau a llennyrch, gyda'u golwg anhygoel, a'u sgiliau ysglyfaethu arswydus, mae gweision y neidr yn griw rhyfeddol o bryfed. Mae'r pyllau a'r nentydd ger Tŷ'n y Parc yn gartref i lu o wahanol rywogaethau, o'r gwas neidr eurdorchog mawr du a melyn i'r picellwr praff sy'n las ei liw ac yn llai o faint. Maent yn treulio cyfnodau cynnar eu bywyd ar ffurf larfa yn datblygu mewn cynefin dyfrllyd hyd at bum mlynedd cyn ymddangos fel pryfyn aeddfed sy'n bwydo ar bryfetach, gwybed, gwenyn a hyd yn oed ar ei gilydd!


Lluniau gan / Photography by Ben Porter



Ehedydd
Skylark



Madfall cyffredin
Common lizard



Gwas y neidr
Dragonflies



Tafod yr hydd
Hart's tongue fern



Cnocell werdd
Green woodpecker

# The Big 5!

## Skylark

The unmistakable song of the skylark is one that epitomises much of the upland and rolling grassy fields of Wales. The male birds deliver a bubbling cascade of notes from high above their territories, often visible as a tiny dot silhouetted above. With a streaked plumage rich fawn in colour, they aren't the easiest to spot amidst their preferred grassland habitats, and chicks even develop a camouflaged cap of wiry hair atop their head which resembles grass stems! Areas like Mynydd Rhiw's rough grassland support important populations of this charismatic songbird as numbers have declined by more than 60% across Britain since the 1980s.

## Green woodpecker

A loud, laughing call is often the first sign you'll have of this colourful woodpecker. With a vivid yellow-green back, a bright red cap and piercing white eyes, this species can be spotted in ash trees and open areas of grassland all across the mountainside of Mynydd Rhiw. Unlike other woodpeckers, it spends most of its time on the ground, where it uses a remarkably long, sticky tongue to probe for its preferred prey: ants! The hummocks of yellow meadow ants are perfect foraging grounds, whilst the mature woodland around Plas yn Rhiw provides tree cavities to rear their loud and raucous broods.

## Common lizard

With a mix of heathland, sunny southern-facing hillsides, dry-stone walls and dense scrub cover, Mynydd Rhiw contains the perfect combination of habitats to accommodate this stunning but often overlooked reptilian species. Often encountered basking in the sunshine along pathways from early spring through to autumn, this species is typically around 15cm in length and sports a speckled and striped patterning ranging from browns and yellows to greens and sometimes even black. Unlike many other reptiles, common lizards incubate their eggs inside their body, giving birth to live young as opposed to laying the eggs.

## Hart's tongue fern

Whilst other ferns in the diverse understorey of Plas yn Rhiw's woodlands can be a little difficult to tell apart, the hart's-tongue fern stands out. Lacking any branched fronds it emerges from the ground as an unfurling, strap-like frond that bears a similarity to the tongue of a deer ('hart' is the name for an adult male red deer). The underside of these fronds are often covered in parallel lines of dark spores, looking similar to small centipedes! As an evergreen plant it is present throughout the year, forming dense patches on the forest floor and standing over 50cm in height at times.

## Dragonflies

Ruling over marshes, ponds and woodland glades with their incredible eyesight and fearsome predatory skills, dragonflies are a remarkable group of insects. The scattering of pools, streams and larger ponds near Tŷ'n y Parc are home to a host of different species, from the large black-and-yellow golden-ringed dragonfly to the smaller azure-blue broad-bodied chaser. Their early life stages are spent as larvae in aquatic habitats, where they can spend up to five years developing before emerging as adult insects which feed on flies, midges, bees and even each other!




Darlun gan Rachel Porter/ Artwork by Rachel Porter